Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.ygggllantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* Mr R O'Neil

15.01.26

Eisteddfodau 2026

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Am y tro cyntaf ers nifer fawr o flynyddoedd bellach, ni fyddwn yn cystadlu fel ysgol yng nghystadlaethau grŵp Eisteddfod yr Urdd eleni – penderfyniad anodd.

Os hoffai eich plentyn gystadlu yn unigol yn y cystadlaethau isod, bydd staff yr ysgol yn dysgu'r darnau gosod i'r plant ac yn cynnal clyweliadau i ddewis 2 gynrychiolydd ar gyfer pob cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Gylch. Bydd yr ysgol hefyd yn cofrestru'r 2 gynrychiolydd er mwyn iddynt allu cystadlu.

Byddwn yn eich hysbysu os bydd eich plentyn wedi'i ddewis ar ôl Chwefror 9fed. Eich cyfrifoldeb chi fel rhiant / gwarchodwr fydd i fynd â'ch plentyn i'r Eisteddfod Gylch (Ysgol Llanhari – 26.02.26) ac, os yn fuddugol, i'r Eisteddfod Sir (Neuadd y Dref, Maesteg – 12.03.26) a'r Genedlaethol ym mis Mai ar Ynys Môn – Ysgolion Cynradd = Mai 28 a 29. Ni fydd staff yr ysgol yn mynychu'r Eisteddfodau eleni.

Cofiwch fod angen i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd er mwyn gallu cystadlu:
https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/

CYSTADLAETHAU UNIGOL:

- **Unawd Bl 2 ac iau**
- **Unawd Bl 3 a 4**
- **Unawd Bl 5 a 6**
- **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl 6 ac iau**
- **Deuawd**
- **Llefaru Unigol Bl 2 ac iau**
- **Llefaru Unigol Bl 3 a 4**
- **Llefaru Unigol Bl 5 a 6**
- **Unawd offerynnol (ar gyfer unrhyw blant sydd o safon Gradd 3 o leiaf ac sydd yn derbyn gwersi offerynnol preifat)**

Byddwn yn parhau i roi nifer o gyfleoedd i'ch plant berfformio eleni, gan gynnwys yr Eisteddfod Ysgol ym mis Mawrth.

Felly, os hoffai'ch plentyn gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2026, cwblhewch y ffurflen hon ogydd. Bydd y ffurflen yn cau hanner dydd ar 23.01.26.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth,

L. Morrish Sara Williams

Mrs Morrish **Miss Williams**

Gwybodaeth bellach: Yr Urdd / The Urdd | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

15.01.26

Eisteddfodau 2026

Dear Parents / Carers,

For the first time in many years, we will not be competing as a school in the Urdd Eisteddfod group competitions this year - a difficult decision.

If your child would like to compete individually in the competitions below, the school staff will teach the children the set pieces and hold auditions to choose 2 representatives for each competition in the District Eisteddfod. The school will also register the 2 representatives so that they are able to compete.

We will notify you if your child has been selected after February 9th. It will be your responsibility as a parent / guardian to take your child to the District Eisteddfod (Ysgol Llanhari - 26.02.26) and, if successful, to the County Eisteddfod (Town Hall, Maesteg - 12.03.26) and the National in May on Anglesey – Primary schools = May 28th and 29th. The school staff will not be attending the Eisteddfodau this year.

Remember that your child needs to be a member of the Urdd in order to compete:
https://www.urdd.cymru/en/join/

INDIVIDUAL COMPETITIONS:

- *Solo Yr 2 and under*
- *Solo Yr 3 and 4*
- *Solo Yr 5 and 6*
- *Presenting a Solo Folk Song Year 6 and under*
- *Duet*
- *Individual Recitation Yr 2 and under*
- *Individual Recitation Yr 3 and 4*
- *Individual Recitation Yr 5 and 6*
- *Instrumental solo (for any children who are at least Grade 3 standard and who receive private instrumental lessons)*

We will continue to give your children a number of opportunities to perform this year, including the School Eisteddfod in March.

So, if your child would like to compete in Eisteddfod yr Urdd 2026, please complete this form. The form will close at midday on 23.01.26.

Thank you very much for your cooperation and support,

L. Morrish Sara Williams

Mrs Morrish *Miss Williams*

Further Information: **Yr Urdd / The Urdd | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant**